

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr awyr agored ar 22/6/21 am 6.00pm Coetir Cymunedol
Portfield Gate

Yn bresennol yn y cyfarfod:

Pwyllgor Ieuenctid: Lili (8/9), Charlie (ar-lein); Tom W-D (5/9); Michele (7/9.5); Rory (7/7); Demi (6/8); Sara (8/8.5); Fred (7/8); Rebecca (6/9)

Staff: Suzanne, Tom, Graham, Sarah Hoss, Abi, Dilys

Ymddiheuriadau: Dim un

Cyflwyniad – Cafodd yr aelodau ieuenctid gyfle i gerdded 50 cam mewn unrhyw gyfeiriad a rhoi adborth ar yr hyn yr oeddent wedi sylwi arno neu ei glywed. Dod ynghyd. Rhoddodd Tom ychydig o hanes y safle.

Eitem 1 – Trafodwyd rôl y cadeirydd a'r is-gadeirydd. Eglurodd Lily rôl y ddwy swydd i'r grŵp. Y swydd is-gadeirydd yn wag. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. **(Tom i weithredu).**

Eitem 2 – Gweledigaeth y Pwyllgor Ieuenctid

Gweithgaredd Gwaith Grŵp - Aelodau ieuenctid i rannu'n ddau grŵp a thrafod y canlynol:

1. Gweledigaeth am ble ddylai'r Parc Cenedlaethol fod ymhen 20 mlynedd;

Grŵp 1 - Grŵp 2 –

Newid Hinsawdd

- Dymuno i'r parc fod mor agos â phosibl at garbon niwtral
- Ceisio gwneud ceir yn ddi-garbon yn yr 20 mlynedd nesaf
- Disodli (diwydiannau niweidiol) â swyddi ynni gwyrdd
- Mwy o ddefnydd cynaliadwy o ynni adnewyddadwy

Bywyd Gwylt a Bioamrywiaeth

- Cynyddu bioamrywiaeth - lleihau colli amrywiaeth
- Gwarchod a gwella ardaloedd naturiol a diwylliannol
- Cyflwyno mwy o brosiectau cadwraeth gan gynnwys achub, adfer a rhyddhau

Cymuned

- Ymwybyddiaeth mwy brwd o weithgareddau cymunedol. Llai o arwahanrwydd cymdeithasol
- Mwy o grwpiau gweithgaredd (APC a/neu bartneriaid) yn mynd allan i'r awyr agored, ac ymdeimlad o gymryd rhan ac atal arwahanrwydd cymdeithasol

Tai

- Pobl ifanc yn gallu fforddio tai. Tai yn broblem fawr. Gwahardd ail gartrefi. Gwneud pethau'n anoddach i bobl fod yn berchen ar ail gartrefi. Cymorth ariannol neu systemau i alluogi pobl (ifanc) lleol brynu tai

Trafnidiaeth

- Trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol am ddim i bawb yn ddelfrydol - ond pobl ifanc yn flaenoriaeth
- Mwy o strydoedd i gerddwyr yn unig (e.e. Penfro)
- Creu modd i bobl (ifanc) sybsideiddio costau parcio
- Mwy o lwybrau beicio

Gweithio

- Ceisio lleoleiddio swyddi mewn cymunedau yn fwy er budd yr economi ond hefyd er budd y bobl / iechyd / hinsawdd
- Rhoi rhesymau economaidd i bobl (ifanc) weithio a byw yma - hyfforddiant a chymwysterau, newid y diwylliant bod rhaid symud i ffwrdd i gael gwaith

Yr Economi

- Annog twristiaeth i ledaenu mwy ar hyd a lled Sir Benfro - lleihau gorlenwi a chefnogi cymunedau eraill
- Hanes sy'n unigryw yn y DU ac yn bwynt gwerthu o bwys ddylai gael ei werthfawrogi'n fwy (gan bobl ifanc)?

Cynhwysiant - Mae mwy o bobl (ifanc) yn deall bod Sir Benfro yn sir arbennig ac yn perthyn iddynt hwy

- Bod yn gynhwysol - targedu ystod ehangach o bobl (yn ogystal â phobl ifanc) mewn cymunedau mwy lleol nid yn unig yn y Parc Cenedlaethol (ar draws holl waith yr Awdurdod PC)
- Gwneud llefydd yn fwy hygyrch - Llwybrau
 - Mwy o hyrwyddo llwybrau troed a'u gwneud yn fwy gweladwy - wedi'u marcio'n glir yn oren yn lle gwyrdd?
 - Dysgu sut i ddarllen mapiau - hyrwyddo gwobr Dug Caeredin
- Cynnal poblogrwydd ymweld â'r Parc - y gorffennol a'r dyfodol - peidio â dibynnu ar dechnoleg, felly yn parhau yn weithgaredd corfforol – yn ddihangfa
- Gwella Band Eang a'r rhyngwrwd yn yr ardaloedd gwledig
- Gwneud llwybrau yn fwy hygyrch i gadeiriau olwyn - teithiau cerdded ar lwybr yr arfordir

2. Gweledigaeth o ble allai / ddylai'r Pwyllgor leuenctid fod yn y Dyfodol.

Gweithio i sicrhau bod Pobl Ifanc yn teimlo bod ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth ar Sir Benfro / y Parc Cenedlaethol / Yr Amgylchedd

- Yr ymdeimlad nad yw Sir Benfro yn perthyn i Bobl Ifanc. Angen dysgu pobl ifanc bod Sir Benfro yn perthyn iddynt hwy. Pobl ifanc heb eu cymell i aros a buddsoddi yn yr ardal. Mae ymdeimlad eich bod yn tyfu i fyny, gadael i'r brifysgol, cael swydd a symud yn ôl pan fydd gennych blant ac ati neu i ymddeol. Poblogaeth hŷn sydd yn Sir Benfro – pobl wedi ymddeol sy'n dominyddu (tai, cymunedau marw i bobl ifanc)

Gweithio i sicrhau bod Pobl Ifanc yn teimlo mwy o gysylltiad â Natur

- Yr ysgol uwchradd (a'r cyfnod hwnnw yn ein hoes) yn creu rhwystrau meddyliol rhag mynd allan i'r awyr agored
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny i'r awyr agored - gwella addysg / llai o risg, sut i'w gwneud hi'n haws i bobl ifanc
- Profiadau cyffredin - newid y canfyddiad o bobl ifanc, a'r bobl Ifanc yn newid eu canfyddiad ohonynt eu hunain

Helpu'r APC i ymateb yn gyflymach a chael effaith gyflymach ac effeithiol

- Teimlo bod yr APC yn gwranddo ar bobl ifanc. Braf gweld effeithiau'r hyn yr ydym yn siarad amdano a chael y wybodaeth ddiweddaraf a'r sicrwydd bod yr hyn a wnawn yn iawn.
- Llai o siarad a mwy o weithredu cymdeithasol

Gwella ac ehangu cyfranogiad rhagweithiol pobl ifanc

- System gydgysylltiedig o grwpiau oedran yn cael dylanwad ar oeddrannau iau. Yn agor drysau i gymryd rhan yn gynharach. e.e. gweithio gyda phobl ifanc ar oedran cynharach fel bod hynny yn fwy cŵl yn nes ymlaen.
- (Pobl Ifanc yn gyffredinol) Rydyn ni'n rhy 'lacs deisi'. Fe wnawn e pan fydd raid. Adweithiol yn hytrach na rhagweithiol.
- Gormod o ymgynghori - a chael ychydig neu ddim adborth na dylanwad
- Gwell defnydd o gyfryngau cymdeithasol - nid yw'n cyrraedd llawer o bobl ifanc
- Siarad â phobl ifanc yn well na phethau ar-lein. Cael mwy o sgysiau drwy'r ysgolion ond mewn modd sy'n fwy rhyngweithiol na gwasanaethau boreol ac ati

Eitem 4 - Soniodd Sarah Hughes am ei gwaith yn casglu adborth ar gyfer Adolygiad APCAP o'r profiad o wirfoddoli. **Tom** i ychwanegu hyn i'r Diwrnod Parcmyn Ifanc 3^{ydd} Gorffennaf.

Eitem 5 - Dilys o brosiect ymchwil APCAP 'Profiadau i Bawb' - yn dilyn y cyfarfod ar-lein fis Gorffennaf diwethaf – dechreuodd 'profiadau i bawb' fis Mawrth.

Ymchwil - 11 categori o ddefnyddwyr gan gynnwys pobl ifanc dan 25. O'r 470 o ymatebion dim ond rhyw 20 oedd yn bobl ifanc. Llawer o wybodaeth wedi'i chasglu.

Er mwyn gwneud i bethau ddigwydd i wella'r sefyllfa hon - pa 3 pheth ydych chi am eu bwydo i mewn i gynllun gweithredu? Daeth yr amser i ben, felly **Dilys i ymuno â'r Pwyllgor Ieuentid Awyr agored nesaf ar yr 20^{fed} o Awst.**

Eitem 6 – Gwneud fersiwn Sir Benfro o Fanifesto Ieuentid Europarc

Rhoddodd Tom drosolwg o sut y daeth manifesto ieuentid i fodolaeth. Sefydlwyd Parcmon Ieuentid yn 2013 - cyfle i ieuentid na allai wneud gwobr Dug Caeredin na chael mynediad i weithgareddau eraill. Canolbwyntiwyd ar ieuentid sy'n wynebu rhwystrau. Yn anodd ei gynnal ond roedd y gymysgedd o grwpiau yn fwy buddiol. Roedd cyllid gan Europarc yn 2017/18. Aeth 3 o ieuentid i brosiect manifesto yn Glasgow a lanswyd y manifesto mewn cynhadledd lle cynhyrwyd manifesto ieuentid. Cyflwynodd pobl ifanc y manifesto i bwyllgor y Parc Cenedlaethol a galw am i'r Parc Cenedlaethol wneud rhai newidiadau.

Rhannu'r manifesto ieuentid yn 4 maes: cerdded o gwmpas ac edrych ar y dalennau ac ychwanegu unrhyw feddyliau / syniadau all fod gennych

- Grymuso ieuentid
- Byw
- Gweithio
- Dysgu mewn ardaloedd gwarchoddedig

Daeth yr amser i ben - gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf

Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf:

- **6^{ed} Gorffennaf (ar-lein)**
- **20^{fed} Gorffennaf (wyneb yn wyneb)**
- **Awst – cyfarfod ganol mis o bosibl (i'w gadarnhau - Tom i ffwrdd!)**